# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRONFA BENSIWN

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 6, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD IAU, 22 MEHEFIN 2017 AM 10.00 AM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd P Downing (Is-gadeirydd) a fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P Downing | M B Lewis | D G Sullivan |
| W G Thomas | M Thomas | |

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| M B Lewis | D G Sullivan | M Thomas |
| W G Thomas | | |

**Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot:**
P A Rees

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Karen Cobb | Uwch-gyfrifydd |
| Jeffrey Dong | Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Ben Smith | Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a Chanolfan Gwasanaethau |
| Stephanie Williams | Prif Gyfreithiwr |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| N Mills | Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol |
| W Marshall | Hymans Robertson |
| L McAleer | Hymans Robertson |
| G Hopgood | Bfinance |
| S Gervaise Jones | Bfinance |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C E Lloyd

1 **ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER BLWYDDYN DDINESIG 2017-2018**

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd P Downing yn Is-gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2017/2018.

**(Y CYNGHORYDD P DOWNING A FU'N LLYWYDDU)**

## 2 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Y Cynghorydd P Downing - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy mrawd yn gweithio i'r cyngor ac yn cyfrannu at y Gronfa Bensiwn.

Y Cynghorydd M B Lewis - yr agenda yn ei chyfanrwydd - aelod o Gronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe.

Y Cynghorydd D G Sullivan - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy merch-yng-nghyfraith yn aelod cyfrannol y Cynllun Pensiwn ac rwyf yn derbyn Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir gan Gynllun Pensiwn Dyfed - personol.

Y Cynghorydd M Thomas - yr agenda yn ei chyfanrwydd - rwyf i a'm gwraig yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd W G - yr agenda yn ei chyfanrwydd - aelod o Gronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe.

## 3 **GWAHARDD Y CYHOEDD.**

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhelliad/ion yr adroddiad ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitem(au) f/busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle roedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

## 4 **CYFLWYNIADAU A DETHOL RHEOLWR ISADEILEDD.**

Darparwyd gwybodaeth gefndirol ynghylch y broses werthuso a meini prawf y broses benodi gan Sam Gervaise Jones a Guy Hopgood o bifinance. Rhoddwyd cyflwyniadau i'r pwyllgor gan ddau reolwr ynghylch eu cynigion priodol.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau am gynnwys y cyflwyniadau ac atebwyd yn briodol iddynt. Derbyniodd y pwyllgor gyngor gan swyddogion, yr ymgynghorydd annibynnol, a chynrychiolwyr bfinance a Hymans Robertson.

Gwerthuswyd cynigion terfynol y ddau gynigwr olaf gan gymharu eu cyflwyniadau’n unol â’r meini prawf gwerthuso. Yn seiliedig ar y gwerthusiad hwn, nodwyd y gallai First State Investments gynnig ateb a fyddai'n bodloni gofynion Abertawe gyda'i chynnyrch Cronfa Isadeiledd Amrywiol Ewropeaidd II ("EDIF II").

**PENDERFYNWYD:** -

1) Gwahodd tendr terfynol gan First State Investments ac awdurdodi bfinance i werthuso'r tendr am y pris gorau/cymhareb ansawdd;

2) Yn amodol ar safon y cynigwr terfynol, caniatáu bfinance/Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol a Chanolfan Gwasanaethau i geisio eglurdeb a dod i delerau â'r tendrwr olaf er mwyn cadarnhau a chwblhau telerau cyfreithiol y contract; ac
3) Yn amodol ar gytuno ar delerau contract, caniateir bfinance/Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol a Chanolfan Gwasanaethau i ddyfarnu'r contract terfynol a hysbysu'r cynigwr llwyddiannus.

Daeth y cyfarfod I ben am 12.17pm

**CADEIRYDD**